

# Polisi Cysylltiadau Busnes y Pennaeth a'r Corff

# Llywodraethu

| Cymeradwywyd y Polisi gan | Dyddiad Cymeradwyo | Perchennog y Polisi | Adolygu |
|---|---|---|---|
| CSDd JMT | 11/12/2024 | Addysg CSDd | Fel pob dogfen ar y fewnrwyd, mae'r polisi hwn yn destun adolygiad rheolaidd oherwydd newidiadau i ddeddfwriaeth a pholisi. |

| Rhif y Fersiwn | Dyddiad Cymeradwyo | Cymeradwywyd gan | Diwygiad |
|---|---|---|---|
| F1.0 | 11/12/2024 | CSDd JMT | Adolygwyd y polisi yn unol â deddfwriaeth a chymeradwywyd Templed Addysg newydd ar gyfer ysgolion CSDd. |
| | | | |

Cyhoeddwyd Gorffennaf 2019

## CYFLWYNIAD

Yng Nghymru o dan y Rheoliadau Addysg (Cynlluniau Ariannol AALl) (Cymru) 2004 Rheoliad 4, Paragraff 15, mae’n rhaid i lywodraethwyr ysgol ddatgan unrhyw gysylltiadau busnes a allai effeithio ar eu gallu i wneud penderfyniadau diduedd.

### Datgan Cysylltiad

1. Mae gofyn i gorff llywodraethu gael cofrestr cysylltiadau busnes ar gyfer y llywodraethwyr a’r staff a ddylai fod ar agor i’w archwilio. Er enghraifft, dylai llywodraethwyr a staff ddatgan unrhyw gysylltiadau sydd ganddynt gyda busnesau lleol y gallai’r ysgol ddymuno prynu nwyddau neu wasanaethau ganddynt. Bydd hyn yn helpu i ddangos na fydd llywodraethwyr a staff yn elwa o benderfyniadau maent yn eu gwneud.
2. Mae gan bawb sy’n gweithio i’r Cyngor neu mewn ysgol a phob aelod o'r Cyngor neu gorff llywodraethu ysgol gyfrifoldeb i ddatgan unrhyw gysylltiadau neu gysylltiadau personol a allai fod ganddynt gyda phrynwyr, cyflenwyr a / neu gontractwyr os ydynt yn ymwneud â phenderfyniadau cytundebol neu brynu ar ran y Cyngor, gan gynnwys ysgolion.
3. Dylai unrhyw unigolyn sy’n bresennol yng nghyfarfod corff llywodraethu ddatgan cysylltiad busnes yn uniongyrchol neu’n anuniongyrchol. Mae hyn yn ymwneud ag unrhyw gontract, contract arfaethedig neu fater arall sy’n cael ei ystyried. Mae’n rhaid i’r unigolyn ddatgelu’r ffaith cyn gynted ag y bo’n ymarferol yn y cyfarfod a pheidio â chymryd unrhyw ran yn y broses o ystyried neu drafod y contract neu’r mater dan sylw. Mae’n rhaid i’r unigolyn adael y cyfarfod wrth i’r mater gael ei ystyried neu ei drafod oni bai fod y corff llywodraethu’n caniatáu yn wahanol. Hefyd ni all yr unigolyn bleidleisio ar unrhyw gwestiwn mewn perthynas â’r contract neu’r mater.

### Cysylltiadau Busnes

1. Nid oes yna unrhyw ddiffiniad cynhwysfawr o beth sy’n gysylltiad busnes. Ym mhob achos mae’n rhaid i ystyr naturiol y geiriau gael eu rhoi yng nghyd-destun penodol y contract neu’r mater arall sy’n cael ei drafod.

## Cysylltiadau Busnes Uniongyrchol

1. Mae'r canlynol yn enghreifftiau o gysylltiad busnes uniongyrchol:
    - talu unrhyw gyflog, lwfansau neu dreuliau eraill i aelod o staff o gyllideb yr ysgol
    - unrhyw benodiad lle mae llywodraethwr yn ymgeisydd
    - pan fo llywodraethwr neu aelod o staff yn rhedeg eu busnes eu hunain a lle maent wedi cael tâl am waith a wnaed neu wasanaethau a dderbyniwyd, neu y gallant fod yn cael tâl, o gyllideb yr ysgol neu o unrhyw rai o gronfeydd eraill yr ysgol
    - tir sy'n eiddo i lywodraethwr neu aelod o staff lle gallai ei werth gael ei effeithio gan gynigion yn ymwneud â thir neu adeiladau'r ysgol.

## Cysylltiadau Busnes Anuniongyrchol

1. Gall nifer o faterion gael eu trin fel cysylltiad busnes anuniongyrchol.

Mae rhai enghreifftiau fel a ganlyn:

- mae llywodraethwr neu aelod o staff yn berchen ar gyfranddaliadau cwmni neu gorff arall sydd â chysylltiad busnes uniongyrchol, neu maent yn aelod o'r cwmni neu'r corff hwnnw
- mae llywodraethwr neu aelod o staff yn bartner busnes unigolyn neu gwmni sydd â chysylltiad busnes uniongyrchol
- mae llywodraethwr neu aelod o staff yn cael ei gyflogi gan unigolyn neu gwmni sydd â chysylltiad busnes uniongyrchol
- mae gan lywodraethwr neu aelod o staff ŵr neu wraig neu mae'n byw gydag unigolyn arall sydd â chysylltiad â'r contract neu'r mater a gaiff ei drafod, gan gynnwys penodiad i staff yr ysgol
- mae'r contract neu'r mater yn ymwneud â phenodiad yn yr ysgol a allai arwain at le gwag arall y gallai'r llywodraethwr neu'r aelod o staff fod yn ymgeisydd ar ei gyfer.

## Cysylltiadau nad ydynt yn Gysylltiadau Busnes

2. Ni ystyrir fod rhai materion yn creu cysylltiad busnes. Dyma rai enghreifftiau:
    - bod yn Gynghorydd ar awdurdod lleol.
    - bod yn dalwr ardrethi neu dalwr Treth y Cyngor yn ardal yr ysgol;
    - i aelodau o staff yr ysgol, bod â chysylltiad nad yw'n fwy na chysylltiad cyffredinol staff o ran mater;
    - bod â chysylltiadau nad ydynt yn gysylltiadau busnes;

- bod â chysylltiad sydd mor bell neu ddibwys fel na ellir ei ystyried yn rhesymol fel cysylltiad sy'n debygol o ddylanwadu ar lywodraethwr neu aelod o staff.

## Dyletswydd i Ddatgan

- Mae Llywodraethwyr, Penaethiaid ac aelodau o staff wedi eu rhwymo gan Reoliadau Ariannol ac, felly, mae'n rhaid iddynt ddatgan yn y Gofrestr unrhyw gysylltiadau busnes sydd ganddynt yn bersonol gydag unrhyw gontract sy'n ymwneud â'r ysgol. Mae'n rhaid i'r datganiad fod yn ysgrifenedig a rhaid iddo gael ei gofnodi yn y Gofrestr.
- Yn ychwanegol at unrhyw ddatganiad ysgrifenedig yn y Gofrestr, mae'n rhaid i lywodraethwr neu unrhyw unigolyn arall sy'n mynychu cyfarfod y corff llywodraethu neu un o'i bwyllgorau ddatgan ar lafar eu cysylltiad busnes gydag unrhyw fater ac ni ddylent gymryd unrhyw ran bellach mewn trafodaeth na phenderfyniad ar y mater hwnnw.
- Cyfrifoldeb y llywodraethwr unigol, pennaeth neu'r aelod o staff yw cadw at y rheolau hyn.

## Y Gofrestr

- Dylai pob corff llywodraethu drefnu i Gofrestr gael ei chadw yn yr ysgol. Awgrymir fod y Gofrestr hon yn cael ei chadw gan y Pennaeth / Clerc.
- Mae'n rhaid i'r Gofrestr fod yn agored i gael ei harchwilio'n gyhoeddus, yn rhad ac am ddim, yn ystod oriau rhesymol swyddfa'r ysgol.
- Dylai'r Corff Llywodraethu drefnu i'r Gofrestr gael ei chadw yn gyfredol. Awgrymir y dylid gwneud hyn yn flynyddol o leiaf.

| | |
|---|---|
| **Crëwyd ar** | 11.12.24 |
| **Diweddarwyd ddiwethaf ar** | 1.9.25 |
| **Mabwysiadwyd gan y Corff Llywodraethu Llawn ar** | Tachwedd 27, 2025 |
| **Dyddiad adolygu a drefnwyd** | Medi 2027 |
| **Llofnod Cadeirydd y Llywodraethwyr a dyddiad** | *M Pierce* |

## YSGOL PANT PASTYNOG

**DATGANIAD CYSYLLTIADAU BUSNES A PHERSONOL**

Diben cynnal Cofrestr Cysylltiadau Busnes a Phersonol yw i ddangos gonestrwydd o ran atebolrwydd drwy ddarparu tystiolaeth nad yw cysylltiadau preifat neu bersonol yn dylanwadu ar benderfyniadau a gaiff eu gwneud yn yr ysgol. Mae'r ffurflen hon i'w chwblhau gan yr holl Lywodraethwyr yn flynyddol.

Cwblhewch y ffurflen hon gan ddatgan unrhyw gysylltiadau busnes neu bersonol sydd gennych chi neu aelodau o'ch teulu agosaf. Os nad oes yna gysylltiadau o'r fath yna cwblhewch yr adran berthnasol isod. Llofnodwch y ffurflen a'i dychwelyd at y Pennaeth neu Glerc y Corff Llywodraethu. Bydd y gofrestr yn cael ei hadolygu'n flynyddol.

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Pant Pastynog |
| **Enw** | |
| **Swydd** | |

Rwyf wedi darllen a deall y canllawiau uchod yn ymwneud â datgan cysylltiadau busnes a phersonol ac: (Ticiwch y blwch priodol a chwblhewch y manylion isod os yn berthnasol)

| | |
|---|---|
| Rwy'n datgan **nad oes gen i unrhyw gysylltiad(au)** a allai wrthdaro gyda fy nyletswyddau yn yr ysgol na dylanwadu ar unrhyw benderfyniadau y gallai fod yn rhaid i mi eu gwneud. | |
| Rwy'n datgan **fod gen i gysylltiad(au)** a allai wrthdaro gyda fy nyletswyddau yn yr ysgol neu ddylanwadu ar unrhyw benderfyniadau y gallai fod yn rhaid i mi eu gwneud. Nodir y manylion yn y tabl isod: | |

| Enw'r Cwmni neu'r cyflenwr y mae gen i gysylltiad ag ef | Math o Fusnes | Natur y Cysylltiad neu'r Berthynas | Y dyddiad y datblygodd y Cysylltiad | Y dyddiad y datganwyd y Cysylltiad gyntaf |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |

Rwy'n cytuno y bydd unrhyw gysylltiadau sy'n codi ar ôl gwneud y datganiad hwn yn cael eu datgan i'r Corff Llywodraethu ac fe fyddaf yn llenwi ffurflen arall. Rwy'n deall y dylwn hefyd ddatgelu yn llafar unrhyw gysylltiad mewn unrhyw gyfarfod penodol ac y dylwn adael y cyfarfod tra bod yr eitem honno ar y rhaglen yn cael ei hystyried.

Llofnod - ……………………………….. Dyddiad - ………………………